# Polisi Tadolaeth Ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Cybi |
| **Dyddiad cymeradwyo a mabwysiadu'r polisi gan y Corff Llywodraethu** | 25/3/26 |
| **Cyfnod Adolygu** | Bob 3 Mlynedd |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf** | Tymor y Gwanwyn 2029 |
| **Pennaeth** | Owain Lemin Roberts |
| **Cadeirydd Llywodraethwyr** | Colin Bell |

**Paratowyd gan Adnoddau Dynol:** Awst 2018
**Adolygwyd:** Ebrill 2024, Mawrth 2026

## Cynnwys


1. Rhagarweiniad
2. Hawl i absenoldeb tadolaeth (genedigaeth)
3. Hawl i absenoldeb tadolaeth (mabwysiadu)
4. Faint o absenoldeb tadolaeth y gallwch ei gymryd
5. Amseru absenoldeb tadolaeth
6. Rhybudd i gymryd absenoldeb tadolaeth (genedigaeth)
7. Rhybudd i gymryd absenoldeb tadolaeth (mabwysiadu)
8. Newid eich cynlluniau absenoldeb tadolaeth
9. Tâl tadolaeth
10. Eich hawliau yn ystod absenoldeb tadolaeth
11. Dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb tadolaeth
12. Apwyntiadau Cyn Geni / Mabwysiadu
13. Absenoldeb Tadolaeth Partner mewn Profedigaeth
14. Diogelu data
15. Adolygu'r polisi


## Atodiadau


Atodiad A – Ffurflen absenoldeb tadolaeth: Hysbysiad o hawl (genedigaeth)

Atodiad B – Ffurflen absenoldeb tadolaeth: Rhybudd am hysbysiad absenoldeb (genedigaeth)

Atodiad C – Ffurflen absenoldeb tadolaeth: Hysbysiad o hawl (mabwysiadu)

Atodiad Ch – Ffurflen absenoldeb tadolaeth: Rhybudd o hysbysiad absenoldeb (mabwysiadu)

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn nodi hawliau gweithwyr i absenoldeb tadolaeth a thâl mewn perthynas â phlant:

- y disgwylir iddynt gael eu geni ar ôl 6 Ebrill 2026; neu
- y disgwylir iddynt gael eu lleoli gyda'r mabwysiadwr (neu ddod i Brydain ar gyfer mabwysiadu o dramor) ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026.

Mae'r polisi hefyd yn berthnasol lle bydd y babi yn marw neu'n farw-anedig yn dilyn beichiogrwydd sy'n para o leiaf 24 wythnos neu lle bydd y fam neu'r sawl sy'n mabwysiadu plentyn yn marw wrth roi genedigaeth neu o fewn blwyddyn i'r enedigaeth neu o fewn blwyddyn i fabwysiadu.

## 2. Hawl i absenoldeb tadolaeth (genedigaeth)

Gallwch gymryd absenoldeb tadolaeth er mwyn gofalu am y plentyn neu gefnogi mam y plentyn:

- chi yw tad biolegol y plentyn ac y byddwch neu disgwylir y byddwch yn gyfrifol am fagu'r plentyn; neu'n
- briod, yn bartner sifil neu'n bartner i fam y plentyn ac y byddwch neu disgwylir y byddwch yn bennaf gyfrifol (ar wahân i'r fam) am fagu'r plentyn.
- Os ydych yn ddarpar riant (os ydych yn cael baban trwy drefniant mam fenthyg)

- Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r hawl i absenoldeb a thâl tadolaeth ar gael i ofalwyr dynodedig, e.e. y teulu estynedig lle nad oes unrhyw un ar gael sy'n cydymffurfio gyda'r gofynion uchod.

I arfer eich hawl i gymryd absenoldeb tadolaeth pan enir plentyn, rhaid i chi gydymffurfio â'r weithdrefn hysbysu a nodir isod (gweler Hysbysiad i gymryd absenoldeb tadolaeth (genedigaeth).

## 3. Hawl i absenoldeb tadolaeth (mabwysiadu)

Gallwch gymryd absenoldeb tadolaeth er mwyn gofalu am y plentyn mabwysiedig neu gefnogi mabwysiadwr y plentyn:

- bod yn briod, yn bartner sifil neu'n bartner i'r sawl sy'n mabwysiadu'r plentyn, ac y byddwch neu disgwylir y byddwch yn bennaf gyfrifol (ar wahân i'r mabwysiadwr) am fagu'r plentyn.
- Os ydych yn ddarpar riant (os ydych yn cael baban trwy drefniant mam fenthyg)

- Yn ychwanegol at yr uchod, mae’r hawl i absenoldeb a thâl tadolaeth ar gael i ofalwyr dynodedig, e.e. y teulu estynedig lle nad oes unrhyw un ar gael sy’n cydymffurfio gyda’r gofynion uchod.

Os ydych chi'n un o gwpl sy'n mabwysiadu plentyn ar y cyd, dim ond un ohonoch fydd â hawl i gymryd absenoldeb mabwysiadu a gall y rhiant arall ddewis cymryd cyfnod o absenoldeb tadolaeth, ar yr amod bod yr amodau cymhwyso perthnasol yn cael eu bodloni.

I arfer eich hawl i gymryd absenoldeb tadolaeth mewn achos o fabwysiadu, rhaid i chi gydymffurfio â'r weithdrefn hysbysu a nodir isod (gweler Hysbysiad i gymryd absenoldeb tadolaeth (mabwysiadu).

## 4. Faint o absenoldeb tadolaeth y gallwch ei gymryd

Gallwch gymryd hyd at 2 wythnos o absenoldeb tadolaeth. Nid oes rhaid i chi gymryd eich absenoldeb mewn un cyfnod, ond rhaid trefnu'r absenoldeb mewn blociau o un wythnos o leiaf.

Mae hyn yn golygu y gallwch gymryd yr absenoldeb mewn un bloc o wythnos, un bloc o bythefnos, neu ddau floc ar wahân o wythnos yr un.

Dim ond pythefnos o absenoldeb tadolaeth y gallwch ei gymryd am bob beichiogrwydd neu achos o fabwysiadu, hyd yn oed os oes mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r beichiogrwydd neu os yw mwy nag un plentyn yn cael ei leoli o dan yr un trefniant mabwysiadu.

## 5. Amseru absenoldeb tadolaeth

Gallwch ddechrau eich absenoldeb tadolaeth ar unrhyw ddiwrnod ar ôl genedigaeth y plentyn, ond rhaid iddo ddod i ben o fewn 52 wythnos i'r enedigaeth (neu’r wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni os yw'r plentyn yn cael ei eni'n gynnar).

Ac eithrio mabwysiadu, nid oes angen i'r dyddiad cychwyn absenoldeb fod yn fanwl gywir, ond ni all fod yn gynt na'r dyddiad geni disgwyliedig. Pan fo'r plentyn yn cael ei eni'n gynharach na'r disgwyl, gall yr absenoldeb ddechrau ar y diwrnod ar ôl geni'r plentyn, ar yr amod bod cymeradwyaeth y Pennaeth wedi’i dderbyn.

Yn achos plentyn mabwysiedig, mae'r cyfnod o 52 wythnos yn mynd o'r dyddiad y cafodd y plentyn ei leoli i'w fabwysiadu gyda'r mabwysiadwr (neu fynediad y plentyn i Brydain ar gyfer mabwysiadu o dramor).

## 6. Rhybudd i gymryd absenoldeb tadolaeth (genedigaeth)

*Hysbysiad o hawl (genedigaeth)*

Cyn y gallwch gymryd absenoldeb tadolaeth, bydd angen i chi roi rhybudd ysgrifenedig i'ch Pennaeth, o leiaf 15 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'r baban gael ei eni, o'r:

- wythnos y disgwylir i'r baban gael ei eni; a'ch
- datganiad yn cadarnhau eich bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd i gymryd absenoldeb tadolaeth.

Dylech gyflwyno eich hysbysiad a'ch datganiad gan ddefnyddio'r ffurflen hysbysiad o hawl (genedigaeth) (Atodiad A).

*Rhybudd am hysbysiad absenoldeb (genedigaeth)*

Ar gyfer pob achlysur yr ydych yn dymuno cymryd cyfnod o absenoldeb tadolaeth, rhaid i chi roi rhybudd pellach i'ch Pennaeth yn ysgrifenedig:

- pryd ydych chi am ddechrau'ch absenoldeb (gallwch ddewis cymryd hwn mewn un bloc neu ddau floc ar wahân);
- p'un ai a ydych chi'n dymuno cymryd wythnos neu ddwy o absenoldeb; a'ch
- datganiad mai pwrpas yr absenoldeb yw gofalu am y plentyn neu gefnogi mam y plentyn.

Mae gennych dri opsiwn ar gyfer pryd i ddechrau cyfnod o absenoldeb tadolaeth:

- **Y dyddiad geni gwirioneddol:** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn diwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i'r baban gael ei eni.
- **Nifer gytunedig o ddiwrnodau ar ôl yr enedigaeth:** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad y nifer gytunedig o ddiwrnodau a gyfrifwyd o ddiwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i'r baban gael ei eni.
- **Ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw (ni ddylai fod yn gynharach na diwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i'r baban gael ei eni):** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ymlaen llaw.

Dylech gyflwyno eich hysbysiad absenoldeb a'ch datganiad gan ddefnyddio'r ffurflen rhybudd am hysbysiad absenoldeb (genedigaeth) (Atodiad B).

## 7. Rhybudd i gymryd absenoldeb tadolaeth (mabwysiadu)

*Hysbysiad o hawl (mabwysiadu)*

Cyn y gallwch gymryd absenoldeb tadolaeth, bydd angen i chi roi rhybudd ysgrifenedig i'ch Pennaeth, o fewn saith diwrnod ar ôl y dyddiad yr hysbysir mabwysiadwr y plentyn ei fod wedi cael ei baru ar gyfer mabwysiadu, o'r:

- dyddiad y cafodd y mabwysiadwr wybod ei fod wedi'i baru ar gyfer mabwysiadu;
- y dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu gyda'r mabwysiadwr (neu, os yw eisoes wedi'i leoli ar gyfer mabwysiadu, dyddiad y lleoliad); a'ch
- datganiad yn cadarnhau eich bod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd i gymryd absenoldeb tadolaeth.

Dylech gyflwyno eich hysbysiad a'ch datganiad gan ddefnyddio'r ffurflen hysbysiad o hawl (mabwysiadu) (Atodiad C).

*Rhybudd am hysbysiad absenoldeb (mabwysiadu o fewn y DU)*

Ar gyfer pob achlysur yr ydych yn dymuno cymryd cyfnod o absenoldeb tadolaeth, rhaid i chi roi rhybudd pellach ysgrifenedig i'ch Pennaeth o fewn saith diwrnod ar ôl y dyddiad y rhoddir gwybod i'r sawl sy'n mabwysiadu'r plentyn ei fod wedi cael ei baru ar gyfer mabwysiadu, o:

- pryd ydych chi am ddechrau'ch absenoldeb (gallwch ddewis cymryd hwn mewn un bloc neu ddau floc ar wahân);
- p'un ai a ydych chi'n dymuno cymryd wythnos neu ddwy o absenoldeb; a'ch
- datganiad mai pwrpas yr absenoldeb yw gofalu am y plentyn neu gefnogi mam y plentyn.

Mae gennych dri opsiwn ar gyfer pryd i ddechrau cyfnod o absenoldeb tadolaeth. Gallwch ddechrau'r absenoldeb:

- ar y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu;
- nifer gytunedig o ddiwrnodau ar ôl i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu; neu
- ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw, na ddylai fod yn gynharach na diwrnod cyntaf lleoliad y plentyn i'w fabwysiadu.

Dylech gyflwyno eich hysbysiad absenoldeb a'ch datganiad gan ddefnyddio'r ffurflen rhybudd am hysbysiad absenoldeb (mabwysiadu) (Atodiad Ch).

## 8. Newid eich cynlluniau absenoldeb tadolaeth

Os ydych wedi cyflwyno rhybudd am hysbysiad absenoldeb ond yn dymuno canslo neu amrywio amseriad eich absenoldeb tadolaeth, rhaid i chi roi gwybod i'ch Pennaeth o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad gwreiddiol a nodir yn eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb, neu'r dyddiad dechrau diwygiedig, pa un bynnag yw'r cynharaf.

## 9. Tâl tadolaeth

Byddwch yn parhau i dderbyn eich cyfradd tâl arferol tra byddwch ar absenoldeb tadolaeth ar yr amod:

- bod gennych hawl i gymryd absenoldeb tadolaeth;
- eich bod yn parhau i fod mewn cyflogaeth barhaus gyda ni ar y dyddiad y caiff y plentyn ei eni (yn achos genedigaeth), ei leoli i'w fabwysiadu (pan fabwysiadir plentyn o fewn y DU) neu wedi dod i Brydain (i'w fabwysiadu o dramor); a'ch
- eich bod wedi cydymffurfio â'r hysbysiad a'r gofynion i roi tystiolaeth ac yn gallu darparu'r datganiadau fel y nodir yn y polisi hwn.

## 10. Eich hawliau yn ystod absenoldeb tadolaeth

Yn ystod absenoldeb tadolaeth, bydd holl delerau ac amodau eich contract ac eithrio tâl arferol yn parhau. Bydd eich cyflog yn cael ei newid am dâl tadolaeth os ydych yn gymwys i'w gael. Fodd bynnag, bydd buddion eraill fel hawl i wyliau yn parhau i gronni a bydd cyfraniadau pensiwn yn parhau i gael eu talu.

## 11. Dychwelyd i'r gwaith ar ôl absenoldeb tadolaeth

Yn dilyn eich absenoldeb tadolaeth, yn gyffredinol, mae gennych yr hawl i ailddechrau gweithio yn yr un swydd ag o'r blaen ar delerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol na'r telerau a fyddai wedi bod yn berthnasol pe na fyddech wedi bod yn absennol. Nid yw eich parhad o ran cyflogaeth yn cael ei effeithio.

## 12. Apwyntiadau Cyn Geni / Mabwysiadu

Mae hawl gennych i gymryd amser i ffwrdd i fynd i apwyntiadau cyn geni neu fabwysiadu gyda'ch partner. Mae hyn yn weithredol o pan fydd eich cyflogaeth yn cychwyn.

Mewn perthynas â genedigaeth, rhaid i chi fod yn dad i'r plentyn, neu'n ŵr, partner sifil neu bartner i'r fam. Mae apwyntiad cyn geni yn golygu apwyntiad sydd wedi cael ei wneud ar sail cyngor gan ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs neu fydwraig.

Mewn perthynas â mabwysiadu, mae'n rhaid i chi fod yn mabwysiadu'r plentyn ar y cyd â pherson arall. Os mai chi yw'r unig fabwysiadwr, efallai y bydd gennych hawliau ar wahân i gael amser i ffwrdd o'r gwaith i fynychu apwyntiadau.

O dan yr hawl hwn, mae hawl gennych i gymryd amser i ffwrdd i fynychu hyd at ddau apwyntiad cyn geni/mabwysiadu, a hyd at 6.5 awr ar gyfer pob apwyntiad. Ni fyddwch yn cael eich talu am yr amser hwn.

Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth o'r apwyntiadau os yw'r Pennaeth yn gofyn.

## 13. Absenoldeb Tadolaeth Partner mewn Profedigaeth

Mae rheoliadau Tadolaeth Partneriaid mewn Profedigaeth 2026 (Bereaved Partner's Paternity Leave Regulations 2026) yn caniatáu gweithiwr i fod yn absennol o'r gwaith i ofalu am blentyn yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dilyn genedigaeth y plentyn, lleoliad maethu neu fynediad i'r Deyrnas Unedig at ddibenion mabwysiadu o dramor, mewn sefyllfa lle fydd prif ofalwr y plentyn yn marw. Mae'r absenoldeb yn un cyfnod o 52 wythnos, sy'n rhaid ei gymryd yn dilyn dyddiad y farwolaeth, ac o fewn cyfnod cymhwysedd.

## 14. Diogelu Data

Mae'r Cyngor yn prosesu data personol a gesglir yn unol â'i Bolisi Diogelu Data. Caiff data a gesglir ei gadw'n ddiogel a'i ddatgelu i unigolion a'i weld ganddynt at ddibenion rheoli trefniadau absenoldeb rhiant a rennir. Mae mynediad amhriodol neu ddatgelu data gweithwyr yn gyfystyr â thorri data a dylid adrodd yn ei gylch yn unol â'r polisi diogelu data ar unwaith. Gall hefyd fod yn drosedd ddisgyblu, a fydd yn cael ei thrin o dan y weithdrefn ddisgyblu berthnasol.

## 15. Adolygu'r Polisi

Bydd y Polisi Absenoldeb Tadolaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ar sail ei weithredu neu newidiadau i ddeddfwriaeth.

**Atodiad A**

| Absenoldeb tadolaeth: Hysbysiad o hawl (genedigaeth) | |
|---|---|
| **Enw'r aelod o staff:** | |
| **Rhif cyflog:** | |
| **Ysgol:** | |
| **Wythnos ddisgwyliedig genedigaeth y plentyn:** | |

| **Rwy'n datgan:** | **Ticiwch fel y bo'n briodol:** |
|---|---|
| Mai fi yw tad biolegol y plentyn **NEU** | |
| Rwy'n briod â mam y plentyn **NEU** | |
| Rwy'n bartner sifil i fam y plentyn **NEU** | |
| Rwy'n bartner i fam y plentyn | |
| Rwy'n ddarpar riant (os ydych yn cael baban trwy drefniant mam fenthyg) **NEU** | |
| Rwy'n ofalwyr dynodedig (e.e. y teulu estynedig lle nad oes unrhyw un ar gael sy'n cydymffurfio gyda'r gofynion uchod). | |
| **A** | |
| Byddaf yn gyfrifol am fagu'r plentyn | |

| Llofnod: | | Dyddiad: | |
|---|---|---|---|

**Nodiadau**

Rhaid i'r rhybudd hwn gael ei gyflwyno i'ch Pennaeth o leiaf 15 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni. Pwrpas y ffurflen hon yw gwirio bod gennych hawl i absenoldeb tadolaeth.

Gallwch ddechrau eich absenoldeb tadolaeth ar unrhyw ddiwrnod ar ôl genedigaeth y plentyn, ond rhaid iddo ddod i ben o fewn 52 wythnos i'r enedigaeth (neu’r wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni os yw'r plentyn yn cael ei eni'n gynnar). Gallwch gymryd hyd at bythefnos o absenoldeb tadolaeth os ydych yn gymwys. Nid oes rhaid i chi gymryd eich absenoldeb mewn un cyfnod, ond rhaid trefnu'r absenoldeb mewn blociau o wythnos o leiaf.

Ar gyfer pob achlysur yr ydych yn dymuno cymryd cyfnod o absenoldeb tadolaeth, rhaid i chi gyflwyno rhybudd pellach gan ddefnyddio'r ffurflen rhybudd i hysbysiad absenoldeb (genedigaeth) (Atodiad B).

Mae gennych dri opsiwn ar gyfer pryd i ddechrau cyfnod o absenoldeb tadolaeth:

- **Y dyddiad geni gwirioneddol:** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn diwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni.
- **Nifer gytunedig o ddiwrnodau ar ôl yr enedigaeth:** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad y nifer gytunedig o ddiwrnodau a gyfrifwyd o ddiwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni.
- **Ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw (ni ddylai fod yn gynharach na diwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni):** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ymlaen llaw.

**Atodiad B**

| **Absenoldeb tadolaeth: Rhybudd am hysbysiad absenoldeb (genedigaeth)** | |
|---|---|
| **Enw'r aelod o staff:** | |
| **Rhif cyflog:** | |
| **Teitl swydd:** | |
| **Ysgol:** | |
| **Dyddiad geni'r plentyn (os yw'n berthnasol):** | |
| **Rwy’n bwriadu cymryd fy absenoldeb tadolaeth:** | **Ticiwch fel y bo'n briodol:** |
| mewn un bloc o bythefnos **NEU** | |
| mewn un bloc o wythnos **NEU** | |
| wythnos arall o absenoldeb tadolaeth (gan wedi cymryd fy wythnos gyntaf o absenoldeb tadolaeth yn flaenorol) | |
| **Rwyf drwy hyn yn rhoi rhybudd o fy mwriad i gymryd absenoldeb tadolaeth a thâl yn dechrau:** | **Ticiwch fel y bo'n briodol:** |
| ar y dyddiad y cafodd y plentyn ei eni **NEU** | |
| [ ] diwrnodau ar ôl i'r plentyn gael ei eni **NEU** | |
| ar [ ] (diwrnod yn hwyrach na diwrnod cyntaf wythnos genedigaeth ddisgwyliedig y plentyn) | |

| Rwy'n datgan: | | | Ticiwch fel y bo'n briodol: |
|---|---|---|---|
| Byddaf yn absennol o'r gwaith er mwyn gofalu am y plentyn neu gefnogi mam y plentyn | | | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

**Nodiadau**

Pwrpas yr hysbysiad hwn yw cadarnhau pryd fyddwch chi’n bwriadu cymryd eich absenoldeb tadolaeth. Mae'n rhaid eich bod eisoes wedi cyflwyno hysbysiad o hawl gan ddefnyddio'r ffurflen hysbysiad o hawl (Atodiad A) cyn defnyddio'r ffurflen hon (neu gallwch ei chyflwyno ar yr un pryd).

Gallwch ddechrau eich absenoldeb tadolaeth ar unrhyw ddiwrnod ar ôl genedigaeth y plentyn, ond rhaid iddo ddod i ben o fewn 52 wythnos i'r enedigaeth (neu'r wythnos ddisgwyliedig os yw'r plentyn yn cael ei eni'n gynnar). Gallwch gymryd hyd at bythefnos o absenoldeb tadolaeth os ydych yn gymwys. Nid oes rhaid i chi gymryd eich absenoldeb mewn un cyfnod, ond rhaid trefnu'r absenoldeb mewn blociau o wythnos o leiaf.

Mae gennych dri opsiwn ar gyfer pryd i ddechrau cyfnod o absenoldeb tadolaeth a thâl:

- **Y dyddiad geni gwirioneddol:** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn diwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni.
- **Nifer gytunedig o ddiwrnodau ar ôl yr enedigaeth:** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad y nifer gytunedig o ddiwrnodau a gyfrifwyd o ddiwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni.
- **Ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw (ni ddylai fod yn gynharach na diwrnod cyntaf yr wythnos y disgwylir i’r baban gael ei eni):** Dylai eich rhybudd am hysbysiad absenoldeb gael ei dderbyn gennym o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ymlaen llaw.

Os byddwch yn dechrau ar eich absenoldeb tadolaeth statudol a'ch tâl tadolaeth ar y diwrnod y caiff y plentyn ei eni neu, os ydych yn y gwaith ar y diwrnod hwnnw, y diwrnod canlynol, neu un o’r diwrnodau penodol ar ôl i'r plentyn gael ei eni, dylech roi rhybudd pellach i'ch Rheolwr Llinell, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r plentyn gael ei eni, o'r dyddiad y cafodd y plentyn ei eni.

**Atodiad C**

| Absenoldeb tadolaeth: Hysbysiad o hawl (mabwysiadu) | |
|---|---|
| **Enw'r aelod o staff:** | |
| **Rhif cyflog:** | |
| **Ysgol:** | |
| **Dyddiad y cafodd mabwysiadwr wybod ei fod wedi'i baru ar gyfer mabwysiadu:** | |
| **Dyddiad pryd y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu gyda mabwysiadwr (neu, os yw eisoes wedi'i leoli ar gyfer mabwysiadu, dyddiad y lleoliad):** | |

| **Rwy'n datgan:** | **Ticiwch fel y bo'n briodol:** |
|---|---|
| Fy mod yn briod â mabwysiadwr y plentyn **NEU** | |
| Rwy'n bartner sifil i fabwysiadwr y plentyn **NEU** | |
| Rwy'n bartner i fabwysiadwr y plentyn **NEU** | |
| Rwy’n ddarpar riant (os ydych yn cael baban trwy drefniant mam fenthyg) **NEU** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rwy’n ofalwyr dynodedig (e.e. y teulu estynedig lle nad oes unrhyw un ar gael sy’n cydymffurfio gyda’r gofynion uchod). | | | |
| **A** | | | |
| Byddaf yn gyfrifol am fagu’r plentyn | | | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

**Nodiadau**

Rhaid cyflwyno'r hysbysiad hwn i'ch Pennaeth o fewn saith diwrnod ar ôl y dyddiad y hysbysir mabwysiadwr y plentyn ei fod wedi’i baru ar gyfer mabwysiadu. Pwrpas y ffurflen hon yw ein galluogi i wirio bod gennych hawl i absenoldeb tadolaeth.

Ar yr un pryd, rhaid i chi roi rhybudd pellach gan ddefnyddio'r ffurflen rhybudd o hysbysiad absenoldeb (mabwysiadu) (Atodiad Ch) ar gyfer pob achlysur yr ydych yn dymuno cymryd absenoldeb tadolaeth.

Mae gennych dri opsiwn ar gyfer pryd i ddechrau cyfnod o absenoldeb tadolaeth:

- ar y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu;
- nifer gytunedig o ddiwrnodau ar ôl i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu; neu
- ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw, na ddylai fod yn gynharach na diwrnod cyntaf lleoliad y plentyn i'w fabwysiadu.

Rhaid i chi gymryd eich absenoldeb tadolaeth yn llawn o fewn 52 wythnos i'r dyddiad y cafodd y plentyn ei fabwysiadu gyda'r mabwysiadwr. Gallwch gymryd hyd at bythefnos o absenoldeb tadolaeth os ydych yn gymwys. Nid oes rhaid i chi gymryd eich absenoldeb mewn un cyfnod unigol, ond rhaid trefnu’r absenoldeb mewn blociau o wythnos o leiaf.

**Atodiad Ch**

| Absenoldeb tadolaeth: Rhybudd o hysbysiad absenoldeb (mabwysiadu) | |
|---|---|
| **Enw'r aelod o staff** | |
| **Rhif cyflog:** | |
| **Teitl swydd:** | |
| **Ysgol:** | |
| **Dyddiad y cafodd mabwysiadwr wybod ei fod wedi'i baru ar gyfer mabwysiadu:** | |

| **Rwy’n bwriadu cymryd fy absenoldeb tadolaeth:** | **Ticiwch fel y bo'n briodol:** |
|---|---|
| mewn un bloc o bythefnos **NEU** | |
| mewn un bloc o wythnos **NEU** | |
| wythnos arall o absenoldeb tadolaeth (gan wedi cymryd fy wythnos gyntaf o absenoldeb tadolaeth yn flaenorol) | |
| **Rwyf drwy hyn yn rhoi rhybudd o fy mwriad i gymryd absenoldeb tadolaeth a thâl yn dechrau:** | **Ticiwch fel y bo'n briodol:** |
| ar y dyddiad y mae'r plentyn wedi'i leoli i'w fabwysiadu **NEU** | |
| [ ] diwrnod ar ôl i'r plentyn gael ei fabwysiadu **NEU** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ar [ ] (dyddiad ar neu ar ôl y diwrnod cyntaf y lleolir y plentyn) | | | |
| **Rwy'n datgan:** | | | **Ticiwch fel y bo'n briodol:** |
| Byddaf yn absennol o'r gwaith er mwyn gofalu am y plentyn neu gefnogi mabwysiadwr y plentyn | | | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

**Nodiadau**

Pwrpas yr hysbysiad hwn yw cadarnhau pryd ydych chi'n bwriadu cymryd eich absenoldeb tadolaeth. Rhaid i chi gyflwyno'r ffurflen hon ar yr un pryd â'ch hysbysiad o hawl gan ddefnyddio'r ffurflen hysbysiad o hawl (mabwysiadu) (Atodiad C).

Mae gennych dri opsiwn ar gyfer pryd i ddechrau cyfnod o absenoldeb tadolaeth:

- ar y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu;
- nifer gytunedig o ddiwrnodau ar ôl i'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu; neu
- ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw, na ddylai fod yn gynharach na diwrnod cyntaf lleoliad y plentyn i'w fabwysiadu.

Rhaid i chi gymryd eich absenoldeb tadolaeth yn llawn o fewn 52 wythnos i'r dyddiad y cafodd y plentyn ei fabwysiadu gyda'r mabwysiadwr. Gallwch gymryd hyd at bythefnos o absenoldeb tadolaeth os ydych yn gymwys. Nid oes rhaid i chi gymryd eich absenoldeb mewn un cyfnod unigol, ond rhaid trefnu'r absenoldeb mewn blociau o wythnos o leiaf.

Os byddwch yn dechrau ar eich absenoldeb tadolaeth statudol a'ch tâl tadolaeth ar y diwrnod y caiff y plentyn ei fabwysiadu neu, os ydych yn y gwaith ar y diwrnod hwnnw, y diwrnod canlynol, neu un o'r diwrnodau cytunedig ar ôl dyddiad y lleoliad, dylech roi rhybudd pellach i'ch Line Manager, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl lleoli'r plentyn, o'r dyddiad y cafodd y plentyn ei leoli i'w fabwysiadu.